wrexham
COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
wrecsam

Gwasanaethau Parcio Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

P Meysydd Parcio Canol y Dref

MAES PARCIO	Dyddiau	Tâl	Gwybodaeth
Llyfrgell	Dydd Sul - Dydd Sadwrn	0-1awr 60c 0-2 awr £1.20	2 awr arhosiad hiraf
Stryt y Farchnad	Dydd Sul - Dydd Sadwrn	0-1awr 60c 0-2 awr £1.20	2 awr arhosiad hiraf
Neuadd y Sir	Dydd Sul a Dydd Sadwrn yn unig	0-1 awr 60c 0-2 awr £1.20	2 awr arhosiad hiraf
Adeiladau'r Goron	Dydd Sul a Dydd Sadwrn yn unig	0-2 awr £1.00 0-3 awr £1.50 Dros 3 awr £3.00	Parcio arhosiad hir
Cilgant Sant Siôr	Dydd Sul - Saturday	0-1 awr 50c 1-3 awr £1.50	3 awr arhosiad hiraf
San Silyn	Dydd Sul - Dydd Sadwrn	0-1 awr 50c 1-3 awr £1.50	3 awr arhosiad hiraf
Y Byd Dwr	Dydd Sul - Dydd Sadwrn	0-2 awr £1.00 0-3 awr £1.50 Dros 3 awr £3.00	Parcio arhosiad hir
Marchnad y Bobl Amrylawr	Dydd Llun - Dydd Sadwrn	0-1 awr 50c 1-3 awr £1.50 Dros 3 awr £2.00	3 awr arhosiad hiraf ar lefelau 1-1a. Parcio arhosiad hir ar lefelau 2 ac uwch
Ffordd y Cilgant	Dydd Sul - Dydd Sadwrn	3 awr - £1.00 Dros 3 awr - £1.50	Parcio arhosiad hir. Dim mynediad ar ôl 7 pm neu cyn 6 am
Ffordd Rhosddu	Dydd Sul - Dydd Sadwrn	Dalwyr bathodynnau anabl yn unig	
Sant Marc Amrylawr	Dydd Llun - Dydd Sadwrn	1 awr - £1.20 2 awr - £2.60 3 awr - £3.80 Hyd at 24 awr - £4.90	Maes Parcio NCP Parcio arhosiad hir Ffôn: 01978 354679
Y Werddon	Dydd Sul - Dydd Sadwrn	2 awr - 90c 2-3 awr - £1.80 3-4 awr - £5.00 4-24awr - £10	Maes Parcio NCP Parcio arhosiad hir Ffôn: 01978 354679
Dôl yr Eryrod	Dydd Sul - Dydd Sadwrn	0-2 awr £1 2 - 3 awr £2 3 - 4 awr £3 4+ awr £4 Evening Charge (6pm - 2am) £1	Vinci Park Parcio arhosiad hir Ffôn: 01978 262260



Mae holl feysydd parcio Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn rhai talu ac arddangos (ac eithrio Ffordd Rhosddu sydd i ddalwyr bathodynnau anabl yn unig). Mae peiriannau tocynnau wedi eu lleoli mewn mannau cyfleus o fewn pob maes parcio ac mae byrddau tariff yn nodi'r taliadau a'r rheoliadau parcio. Mae taliadau'n gymwys yn yr holl feysydd parcio rhwng 8.00am - 5.00pm ddydd Sul i ddydd Sadwrn yn gynwysedig yn cynnwys gwyliau banc.

P Tocynnau Tymor

Mae tocynnau tymor ar gael ar gyfer y meysydd parcio canlynol yng nghanol y dref:

Marchnad y Bobl - £200.00 am 6 mis
(ar gau ar ddydd Sul)
Y Byd Dwr - £300.00 am 6 mis
Ffordd y Cilgant - £168.00 am 6 mis

Mae tocyn tymor yn caniatáu parcio dydd Sul i ddydd Sadwrn yn gynwysedig. Petaech yn dymuno gwneud cais am docyn tymor Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam cysylltwch â Gwasanaethau Parcio'r Cyngor yn gyntaf.

P Bathodynnau Anabl

Mae parcio am ddim heb unrhyw gyfyngiad amser o fewn unrhyw faes parcio canol y dref yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam cyn belled â bod bathodyn glas dilys a chloc yn cael ei arddangos. Gall dalwyr bathodynnau glas barcio o fewn lle parcio dynodedig i'r anabl, neu mewn lle parcio safonol. Gall dalwyr bathodynnau glas hefyd barcio ar y briffordd ar linellau melyn sengl neu ddwbl am hyd at 3 awr ac eithrio os oes gwaharddiad llwytho neu ddadlwytho. Hefyd mae amseroedd penodol pan mae dalwyr bathodynnau yn gallu cael mynediad i rannau pedestraidd o ganol tref Wrecsam. Gwiriwch arwyddion ynglyn â mynediad.

P Parcio Beiciau Modur

Mae lleoedd parcio dynodedig ar gyfer beiciau modur ym meysydd parcio Byd Dwr, Cilgant Sant Siôr, Sant Silyn a Stryt y Farchnad.

P Gorfodaeth Parcio Sifil

O'r 1af o fis Mawrth 2008 cymerodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam y cyfrifoldeb oddi wrth Heddlu Gogledd Cymru am reoli gorfodaeth parcio ledled y Fwrdeistref Sirol. O'r dyddiad hwnnw, mae Swyddoglon Gorfodaeth Sifil a gyflogir gan y Cyngor wedi bod yn patrolio ar y strydoedd yn ogystal â meysydd parcio'r Cyngor. Bydd gofalwyr meysydd parcio'r Cyngor yn rhoi Rhybuddion Tâl Cosb (RhTC) i yrrwyr cerbydau sydd wedi parcio yn groes i reoliadau sydd mewn grym ar y pryd.

P Parcio ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam

Eich cyfrifoldeb chi yw parcio eich cerbyd yn gywir. I'ch atgoffa dyma rai lleoedd na ddylech barcio.

Peidiwch â pharcio...

- mewn mannau ble mae rheoliadau aros a llwytho mewn grym ar y pryd;
- mewn lle parcio wedi ei gadw (e.e. i ddalwyr bathodyn glas) heb arddangos hawlen ddilys yn gywir;
- ar arosfa bws neu mewn lôn bws yn ystod amseroedd gwaharddedig;
- ar linellau igam-ogam gorfodol y tu allan i ysgol neu wrth groesfannau i gerddwyr;
- ar y palmant neu ymylon ffyrdd y tu ôl i waharddiadau aros mewn grym ar y pryd;
- mewn gofod talu ac arddangos heb dalu'r swm cywir am hyd eich arhosiad;
- am yn hirach nag unrhyw gyfyngiad aros neu ddychwelyd i'r lle parcio o fewn y cyfyngiad amser a nodir;

Os nad ydych yn siwr, gwiriwch beth sydd ar yr arwydd sy'n berthnasol i'r lle rydych yn ystyried parcio.

P Gollyngiad

Efallai bydd achlysuron pan fydd arnoch angen parcio ar linellau melyn neu mewn mannau parcio am amser hirach na'r amser a ganiateir. Gall trwydded gollyngiad fod ar gael ar gyfer hyn. Cysylltwch â Gwasanaethau Parcio'r Cyngor yn gyntaf.

P Rhybuddion Tâl Cosb (RhTC)

Os ydych yn teimlo na ddylid fod wedi rhoi RhTC, ysgrifennwch at Bartneriaeth Prosesu Cosb Cymru (bydd y cyfeiriad ar gefn y RhTC) yn nodi pam eich bod yn credu ei fod wedi ei roi yn anghywir. Cofiwch gynnwys unrhyw dystiolaeth ychwanegol h.y. tocynnau talu ac arddangos. Os nad yw'r RhTC wedi cael ei ddiddymu ac rydych yn parhau'n anfodlon mae gennych yr hawl i apelio at y Gwasanaeth Dyfarniad Annibynnol.

P Ble allaf gael hyd i wybodaeth ychwanegol?

Am ymholiadau RhTC, cysylltwch â
Trwy'r Post Partneriaeth Prosesu Cosb Cymru,
Blwch Post 273,
Y Rhyl, LL19 9EJ
Ar y ffôn 0845 6056656

Am bob ymholiad gwasanaethau parcio arall, cysylltwch â
Trwy'r Post Gwasanaethau Parcio,
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam,
Rheolaeth Cludiant ac Asedau,
Adeiladau'r Goron, Wrecsam,
LL13 8BG
Ar y ffôn 01978 292042
Trwy E-bost parking @wrexham.gov.uk
Cyfeiriad y We www.wrecsam.gov.uk

Os ydych angen gwybodaeth mewn ffurfiau cyraeddadwy yn cynnwys print bras, Braille, tâp sain, ar ddisg cyfrifiadur neu mewn ieithoedd heblaw Cymraeg a Saesneg gadewch inni wybod os gwelwch yn dda.